**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR**
**a gynhaliwyd ar y 3ydd o Chwefror 2015**

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Dewi Rattray (Cadeirydd); Rowland Jones; Caredig Jones; John Davies; Ann Tudor; Ada Evans; Meirion Davies; Dylan Edwards**

**YMDDIHEURIADAU:- Cynghorwyr:- Richard Davies a Meic Francis**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau.

**15/817**
Darllenwyd y cofnodion a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Meirion Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Rowland Jones.

**15/818**
**MATERION YN CODI**

Dywedodd y Clerc ei bod wedi siarad a'r heddlu (plismon bro) ac ei fod yn mynd i drafod problem y parcio ger Glanllyn Hall efo'r Arolygydd Parcio yr heddlu.

**15/819**
**LLYTHYRON**

1. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Clerc yn dweud ei bod am ymddeol o'r swydd fel Clerc. Pasiwyd i roi hysbysebion am y swydd yn y Ddolen a'r Cambrian News. Diolchwyd iddi am y gwaith yn y gorffennol.
2. Ffurflen oddiwrth y Cyngor Sir i roi cyfle i hawlio cymorth o £500 tuag at Gwefan Cyngor Cymuned. Dywedodd y Clerc ei bod wedi llenwi y ffurflen.
3. Oddiwrth Un Llais Cymru i hysbysebi fod cyfarfod i'w gynnal ar y 28ain o Ionawr 2015.
4. Oddiwrth Bwrdd Iechyd Hywel Dda i hysbysebi cyfarfod sydd i'w gynnal ar y 23ain o Chwefror 2015.
5. Oddiwrth y Cyngor Sir ynghlyn a Llwybrau Ceffyl a Troed Tynllain Tynygraig.

**15/820**
**ARIANNOL**

1. Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mr.Neville Jones ( Trysorydd y Ganolfan ) yn tynnu sylw at yr alwad i ddarparu rhyngrwyd yn y Ganolfan. Yr oedd hefyd yn gofyn yn garedig a fyddai y Cyngor Cymuned yn fodlon rhannu trydydd ran o'r baich ariannol os bydd llwyddiant i'w gael. Cynigiodd y Cyng.Ann Tudor y swm o £200 ac eiliodd y Cyng.John Davies. Gwnaeth y Cyng. Rowland Jones ddatgan diddordeb ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.
2. Infois oddiwrth y Clerc o £108.00 am fis Chwefror. Cynigiwyd gan y Cyng. Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

3. Infois oddiwrth TME ELECTRICAL CONTRACTING LTD o £240.00 yn cynnwys v.a.t. am oleuo'r Goeden Nadolig a.y.b Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Rowland Jones ac eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor.
4. Llythyr oddiwrth trysorydd y Ddolen ( papur bro ) yn gofyn am gymorth ariannol. Cynnigiodd y Cyng.Ada Evans £100.00 ac eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor.
5. Llythyr oddiwrth Un Llais Cymru i ofyn am dal aelodaeth sef £129.00. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. Ann Tudor ac eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

**15/821**
**CYNLLUNIO**

1. Cais A 150034 :-  Adeiladu preswyl efo garage ar dir Ficerdy, Llanilar. Pasiwyd i anfon yn ol ac ateb fel a ganlyn:- "The Council support the application on the basis that the proposed dwelling is a new Vicarage and not a speculation building development. The decision was not unanimous" Gwnaeth y Cyng.Rowland Jones ddatgan diddordeb ac ni wnaeth gymeryd rhan yn y drafodaeth.

**15/822**
**UNRHYW FATER ARALL**

1. Esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi edrych ar y fainc sydd i'w chael ei gosod yn y fynwent. Bydd rhaid gwneud peth gwaith arni a gofynodd i rai o'r Cynghorwyr i'w helpu wedyn i'w gosod. Pasiwyd i'w lleoli ar ben llwybr canol sydd yn edrych i gyfeiriad y dwyrain.
2. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Ada Evans at y ffaith fod y bagiau duon ( ailgylchu ) ddim yn cael eu codi bob amser ac hefyd iddynt godi sbwriel ar bwys y ffon bocs ger Rhosgoch.
3. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Meirion Davies at gyflwr y Safle Bws Penrhiwfach gan fod " graffiti" penblwyddi arbennig wedi cael eu rhoi mewn paent. Bydd hyn yn peri cost ychwanegol i'r Cyngor i'w lanhau. Pasiwyd i ofyn i Penri Edwards ( Stainmaster ) a oes modd ei lanhau.
4. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Rowland Jones at gyflwr dau hysbysfwrdd yn Cwm Aur a'r Pentref, mae angen eu cywiro. Dywedodd y Cadeirydd yn garedig iawn y caiff olwg arnynt.
5. Dywedodd y Clerc ar ran y Cyng.Meic Francis a oedd yn absennol fod yna gwyn ynghylch y gwyrdd lle y mae y cyhoedd yn mynd i'r blwch post i bostio llythyron. Yr oedd yn gofyn a oedd modd cael llwybr wedi ei wneud yno. Trafodwyd y mater yma gan y Cynghorwyr  a daethpwyd i'r penderfyniad ein bod wedi gofyn am hyn o'r blaen ac yn anffodus yr ateb oedd nad oedd yn bosib oherwydd Iechyd a Diogelwch. Gall y plant wedyn medru fynd i'r ffordd fawr yn rhwyddach.G